PWYLLGOR SAFONAU

DYDD LLUN, 9 RHAGFYR 2024

PRESENNOL: M. Dodd (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Aelodau Annibynnol (Yn rhithwir)::
C. Davies, F. Phillips.

Aelodau Annibynnol (Yn y Siambr)
D. Evans

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
B.W. Jones P.T. Warlow

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:37yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth G.B. Thomas a D. Morgan.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 6 TACHWEDD 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2024 gan eu bod yn gywir.

4. ADOLYGU COFNOD O GAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR SAFONAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a nodai'r hyn a wnaed mewn perthynas â'r camau, ceisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD KATHARINE REES

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan Gynghorydd Tref Llandeilo, Katharine Rees, am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llandeilo ynghylch:

(1) Fforwm Busnes Llandeilo a
(2) Grŵp Peilonau Cymunedol Llandeilo

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Rees fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan ei bod yn aelod o'r grwpiau hynny neu'n dal swydd reoli ynddynt.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod y Cynghorydd Rees wedi gwneud cais am ollyngiad yn rhinwedd y canlynol:

- Rheoliad 2(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai ymwneud â'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd; a

- Rheoliad 2(f) - mae cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor, pe bai'n caniatáu cais y Cynghorydd Rees, y byddai angen iddo benderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) a 2(f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Katharine Rees siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llandeilo ynghylch (1) Fforwm Busnes Llandeilo a (2) Grŵp Peilonau Cymunedol Llandeilo ac y byddai'r gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.

6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD LEANN MARIE DOUGLAS

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan Gynghorydd Tref Cydweli, Leann Marie Douglas, am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Cydweli ynghylch Canolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli.

Dywedwyd y byddai gan y Cynghorydd Douglas fuddiant personol a rhagfarnol mewn busnes o'r fath, gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Ganolfan y Dywysoges Gwenllian, Cydweli.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod y Cynghorydd Rees wedi gwneud cais am ollyngiad yn rhinwedd y canlynol:

- Rheoliad 2(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai ymwneud â'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd; a

- Rheoliad 2(f) - mae cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor, pe bai'n caniatáu cais y Cynghorydd Douglas, y byddai angen iddo benderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) a 2(f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Leann Marie Douglas siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Cydweli ynghylch Canolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli ac y byddai'r gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.

7. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD CARYS JONES

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Carys Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) i siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â busnes y cyngor ynghylch dyfodol Ysgol Llansteffan.

Nododd aelodau'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Jones yn llywodraethwr a enwebwyd gan yr AALl yn Ffederasiwn Ysgolion Bancyfelin, Llan-gain a Llansteffan a bod ganddi berthynas hanesyddol agos ag Ysgol Llansteffan gan mai hon yw ei hysgol leol. Roedd y Cynghorydd Jones o'r farn bod ganddi berthynas bersonol agos â'r ysgol sydd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd, sy'n ddigon i greu diddordeb personol o dan y cod. Gallai aelod o'r cyhoedd, gan wybod am y cysylltiad hwn, ddod i'r casgliad yn rhesymol y byddai'n dylanwadu ar farn y Cynghorydd Jones wrth ystyried materion yn ymwneud â'r ysgol.

Dywedwyd, er y byddai rôl y Cynghorydd Jones yn llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn fuddiant personol ond NID yn fuddiant rhagfarnol, yn rhinwedd paragraff 12 (2)(a)(iii) o'r cod, y byddai ei pherthynas bersonol agos â'r ysgol yn fuddiant personol a rhagfarnol yn rhinwedd paragraffau 10(2)(c)(i) a 12(1) o'r cod.

Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod y Cynghorydd Jones wedi gwneud cais am ollyngiad yn rhinwedd y canlynol:

- Rheoliad 2(d) - mae natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai ymwneud â'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd; a

- Rheoliad 2(f) - mae cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod.

Dywedwyd bod camgymeriad yn yr adroddiad, gan ei fod yn nodi bod y Cynghorydd Jones yn ceisio gollyngiad i siarad a **phleidleisio** ac i wneud sylwadau ysgrifenedig, ond eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y Cynghorydd Jones wedi gwneud cais 'i siarad ac i wneud sylwadau ysgrifenedig yn unig'.

Dywedwyd wrth y pwyllgor, pe bai'n caniatáu cais y Cynghorydd Jones, y byddai angen iddo benderfynu ar hyd y gollyngiad hwnnw hefyd.

Yn dilyn trafodaeth,

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL roi gollyngiad o dan Reoliadau 2(d) a 2(f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Carys Jones siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ond NID pleidleisio ar fusnes y cyngor ynghylch dyfodol Ysgol Llansteffan ac y byddai'r gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.

8. DYLETSWYDDAU ARWEINWYR Y GRWPIAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn atodi templed adrodd i Arweinwyr Grŵp i'w adolygu ac a ofynnai i'r Pwyllgor gytuno ar unrhyw gyngor neu arweiniad ychwanegol i'w roi i Arweinwyr Grŵp wrth baratoi eu hadroddiadau blynyddol.

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod un o'r dyletswyddau yn gofyn i Arweinwyr Grŵp adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Safonau. Er mwyn hwyluso hyn, roedd y Pwyllgor Safonau wedi mabwysiadu templed adrodd a atodwyd i'r adroddiad i'w adolygu a'i gymeradwyo.

Yn ogystal, roedd y Pwyllgor wedi mabwysiadu meini prawf y byddai perfformiad yr Arweinwyr Grŵp yn cael ei fesur yn eu herbyn. Roedd copi o'r meini prawf hyn wedi'i atodi i'r adroddiad hefyd.

Gwnaed y sylwadau canlynol:-

Gan gyfeirio at Ddyletswydd Arweinwyr Grŵp – Trothwy Asesu, dywedwyd y dylai pwynt 5 nodi, 'Dylai arweinwyr grŵp gymryd camau rhesymol i sicrhau bod aelodau'r grŵp yn **hybu** cwrteisi a pharch yn yr holl gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol'. Nododd a chytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai hyn yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Wrth adolygu'r cynnwys:-

- Cynigiwyd ac eiliwyd bod y templed yn cael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad uniongyrchol at y meini prawf asesu.

- Cynigiwyd ac eiliwyd bod y templed yn cael ei ddiwygio i gynnwys pwynt ychwanegol - 'Astudio a nodi achosion gan Banel Dyfarnu Cymru a phenderfyniadau'r Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion o dan y Cod Ymddygiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar wneud y diwygiadau uchod, fabwysiadu Dyletswydd Arweinwyr Grŵp – Meini Prawf Asesu a'r Templed Adrodd Diwygiedig i Arweinwyr Grŵp.

9. PROTOCOL AR GYFER DELIO Â CHWYNION LEFEL ISEL RHWNG AELODAU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn atodi Protocol ar gyfer Delio â Chwynion Lefel Isel rhwng Aelodau, i'w gymeradwyo. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu protocol ar gyfer datrys cwynion lefel isel rhwng aelodau.

Dywedwyd nad oes templed na model safonol ar gyfer protocolau o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r Protocol yn helpu'r Pwyllgor ac Arweinwyr y Grwpiau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Protocol ar gyfer Delio â Chwynion Lefel Isel rhwng Aelodau yn cael ei gymeradwyo.

10. PENDERFYNIADAU DIWEDDAR Y PANEL DYFARNU A'R OMBWDSMON

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Banel Dyfarnu Cymru yn manylu ar ei ganfyddiadau mewn tri achos a gyfeiriwyd yn uniongyrchol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod penderfyniadau diweddar Panel Dyfarnu Cymru a'r Ombwdsmon ynghylch cwynion o dan y Cod Ymddygiad yn cael eu nodi.

11. UNRHYW FATER ARALL

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol